

Tasg 3

GŴyl UFOs

Bob blwyddyn, mae gŵyl UFOs arbennig yn Roswell, Mecsico Newydd, Gogledd America.

GŴYL UFOs ROSWELL

Wythnos olaf Mehefin – wythnos gyntaf Gorffennaf.

- Cystadleuaeth gwisg ffansi (gwisgo fel aliwn!)
- Cystadleuaeth gwisg ffansi ar gyfer anifeiliaid anwes (gwisgo fel aliwn!)
- Rhedeg ar ôl aliwns
- Gwneud hetiau aliwn
- Carnifal
- Parêd golau – UFOs ac aliwns
- a mwy

Pris: Am ddim

DEWCH I FWYNHAU

1. Rydych chi'n mynd i'r wyl ac rydych chi eisiau cystadlu. Cynlluniwch wisg ffansi i chi neu wisg ffansi i'ch anifail anwes chi.
2. Labelwch y wisg.
3. Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r wisg ffansi yma:

Geirfa

ar gyfer	for	cystadlu	(to) compete
olaf	last	cynllunio	(to) design
gwisgo fel	(to) dress like		

4. Disgrifiwch y wisg ffansi i'ch partner chi.
Beth ydy barn eich partner chi am y wisg?

Cynllunio gŵyl

Mae'r ŵyl yn dathlu UFOs ac aliwns. Edrychwch eto ar yr hysbyseb i weld beth sy'n digwydd.

5. Mewn grŵp, cynlluniwch ŵyl i ddathlu rhywbeth yn eich ardal chi.

Meddyliwch am:

- beth – dathlu beth?
- pryd?
- ble?
- beth fydd yn digwydd?
- pris mynediad?
- dweud wrth bobl am yr ŵyl
- rhywbeth arall?

Mae help i chi ar y dudalen nesaf os ydych chi eisiau help.

Pan fyddwch chi'n trafod, defnyddiwch rai o'r patrymau o rifyn 15 Ciwb, e.e.

Yn union!

Yn hollol!

Yn bersonol ...

Yn fy marn i ...

... heb os nac oni bai ...

Dw i'n cytuno cant y cant.

Geirfa

dathlu rhywbeth	(to) celebrate something	yn eich ardal chi	in your area
-----------------	--------------------------	-------------------	--------------

Trefnu gŵyl

Beth ydyn ni'n mynd i wneud?

- Beth am ...?
- Dw i eisiau ...
- Hoffwn i gael ...
- Syniad da.
- Cytuno achos ...
- Na, dw i ddim yn meddwl achos ...
- Anghytuno achos ...
- Mae'n gas gen i ... / Mae'n gas gyda fi ...
- Mae'n well gen i ... na ... / Mae'n well gyda fi ... na ...

Ble ...?

- Beth am yn ...?
yn y ...
ar y ...
wrth y ...
tu allan i'r ...

Trefnu gŵyl

Pryd ...?

- Beth am ...?
- Syniad da.
- ... cytuno achos ...
- ... anghytuno achos ...

Beth + gwisgo?

- Beth am ...?
- Hoffwn i ...
- Hoffet ti ...?
- Syniad da.
- Cytuno achos ...
- Anghytuno achos ...

Sut + dweud wrth bawb?

- Beth am ...?
- Ble ydyn ni'n mynd i?
- Rhaid anfon ...
- Syniad da.
- ... cytuno achos ...
- ... anghytuno achos ...